

Pleidleisio drwy'r post

Mae pleidleisio drwy'r post yn ffordd hawdd a chyfleus o bleidleisio os na allwch gyrraedd yr orsaf pleidleisio yn bersonol.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad neu refferendwm penodol, am gyfnod penodol o amser neu ym mhob etholiad neu refferendwm a gynhelir yn y dyfodol. Gellir anfon pleidleisiau post i gyfeiriadau yn y DU a thramor.

Rhaid i chi fod wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio.

Sut y gallaf wneud cais i bleidleisio drwy'r post?

- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy'r post.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon, ac unwaith eto pan fyddwch yn defnyddio eich pleidlais bost. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â thîm etholiadau eich cyngor.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i dîm etholiadau eich cyngor. **Mae ei fanylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais am bleidlais bost erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**.

Os nad ydych eisoed wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais bost. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Ewch i eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Pan gynhelir etholiad neu refferendwm, anfonir eich papur pleidleisio atoch drwy'r post. I gael gwybod pryd y caiff eich papur pleidleisio ei anfon, gallwch gysylltu â thîm etholiadau eich cyngor.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd eich pleidlais bost fel ei bod yn cyrraedd erbyn diwedd y cyfnod pleidleisio, neu ni chaiff ei chyfrif. Caiff amlen Rhadbost ei chynnwys yn eich pecyn pleidleisio drwy'r post. Ond, os byddwch yn ei hanfon o dramor, efallai y bydd angen i chi dalu am ei phostio.
- Os yw'n rhy hwyr i chi ddychwelyd eich pleidlais drwy'r post, gallwch ei chyflwyno'n bersonol ar y diwrnod pleidleisio i dîm etholiadau eich cyngor, neu gallwch fynd â hi i rai gorsafoedd pleidleisio.

Datganiad preifatrwydd

Rydym yn casglu gwybodaeth o dan y sail gyfreithiol ei bod yn dasg a gynhelir er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig. Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion etholiadol, gan gynnwys ei chyfateb yn erbyn ffynonellau eraill o ddata ar y gofrestr etholiadol. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall, oni bai ei bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth ag ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at ddibenion ymgysylltu democrataidd ac asiantaethau gwirio credyd er mwyn cadarnhau eich manylion pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd.

Os na ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad a'u defnyddio at nifer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.

